# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 11eg TACHWEDD 2025**
**AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** – Ceri Owen (is-gad), Justin Davies, Judith Humpherys, Celfyn Roberts, Barry Bracegirdle – Penygroes, Harry Owen, Gareth Jones, Nigel Williams - Talysarn, Dafydd Thomas - Nebo, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts – Llanllyfni, Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** -Siân Dafydd – Talysarn, Erfyl Williams – Penygroes, Tesni Glyn – Llanllyfni.

Yn absenoldeb y gadeiryddes Siân Dafydd fu i Ceri Owen (is-gadeiryddes) gadeirio'r cyfarfod hwn. Rhoddwyd croeso cynnes i Celfyn Roberts i'w gyfarfod cyntaf fel cynghorydd cymunedol dros Ward Penygroes.

2. **Datgan buddiant** – nid oedd neb yn datgan buddiant.

3. **Cofnodion cyfarfod 14eg Hydref 2025** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **Sedd wag Nantlle-** nid oedd enw wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Adroddwyd bod y murlun ar Ganolfan Talysarn wedi ei orffen erbyn hyn a'i fod yn edrych yn dda iawn.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Adroddodd Cyng. Thomas ei fod yn bryderus am y mater parcio yn Llanllyfni ac nad oedd Cyngor Gwynedd yn awyddus i adael i neb ddefnyddio'r cae ger y neuadd ar gyfer parcio. Cynigwyd fod y cyngor cymuned yn llythyru Cyngor Gwynedd i ofyn a buasai modd trafod cael defnyddio'r cae pan fo'r angen er enghraifft pan fo rhywbeth ymlaen yn y neuadd neu'r eglwys (eisteddfod, cyngerdd, angladd ayyb). Eiliwyd y cynnig hwn a gofyn i'r clerc gysylltu â swyddogion y cyngor am hyn. Diolchwyd i Cyng. Thomas am ei waith.

6. **Materion Pentrefi** - **Llanllyfni -** yn dilyn derbyn cwynion am gerbydau anghyfreithlon wedi parcio ar waelod Lôn Ddŵr maent bellach wedi ei symud oddi yno. Cerbydau yn parcio yn Felin Gerrig yn dal i achosi pryder gan eu bod yn beryglus. Twll ar Lôn Ddŵr wedi ail-ddechrau suddo unwaith eto ac angen sylw. **Talysarn -** pryderon wedi eu codi ynglŷn â chyflwr y ffyrdd yn y pentref. **Penygroes -** angen holi Grŵp Cynefin am ddiweddariad y ganolfan lles. Pryderon wedi eu codi ynglŷn â chyflwr adeilad y Fic a'i fod yn dirywio ac angen gofyn i swyddog o Gyngor Gwynedd ddod i'w asesu. Er bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn asesu a marcio'r palmentydd yn Trem Yr Wyddfa ers peth amser, nid yw'r gwaith wedi ei gario allan. **Nebo -** gwaith wedi bod yn cael ei gario allan ar dai ADRA yn y pentref a polysteirin wedi chwythu ymhob man ar hyd y lle ac angen ei glirio. Y clerc i gysylltu â'r sefydliadau pwrpasol ar gyfer y materion hyn.

7. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Nid oedd dim yn codi o'r daflen. Adroddwyd bod graddfa cronfa bensiwn yn lleihau i 1.1% ym mis Ebrill. Yn dilyn trafod cais am gyfraniad ariannol gan Glwb Rygbi Caernarfon yn y cyfarfod mis diwethaf penderfynwyd ei adael tan y mis hwn i'w drafod. Trafodwyd y cais a chynigwyd i gyfrannu £750 yn flynyddol iddynt. Eiliwyd y cynnig a chytunodd pawb yn unfrydol.

8. **Llwybrau a Mynwentydd** – teimlai rhai o'r cynghorwyr bod yn amser nawr meddwl am gael tir ychwanegol er mwyn ymestyn Mynwent Gorffwysfa, Llanllyfni.

9. **Ceisiadau Cynllunio** – nid oedd ceisiadau i'w trafod.

10. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis ac aethpwyd drwyddynt:-
- Llwybr Llechi Eryri - cefnogaeth i gael statws llwybr cenedlaethol. Trafodwyd y cais - cynigwyd ac eiliwyd y dylid ei gefnogi. Cytunodd pawb.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

11. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.

- Nia Jones - ffôn a we = **£25.00**
- Antur Nantlle – cynnal a chadw gwefan = **£144.00**
- Designer Signs – trwsio lloches bws Nasareth = **£150.00**
- Steven Lewis – ail hanner cytundeb torri gwair a llwybrau = **£5225.00**
- Steven Lewis – gwaith diogelu cerrig beddi = **£1700.00**
- DimeOne Murual & Design = **£2317.00** (rhan o grant Gwynedd Ni)

13. **Unrhyw fater arall** - safle bws Penygroes angen ei drwsio unwaith eto. Gofyn i Designer Signs a Stephen Lewis am bris ar gyfer hyn. Arwydd goryrru Nantlle heb weithio yn iawn ers ei gael - angen gofyn i'r cwmni ddod allan i edrych arno. Angen rhoi hysbyseb cyfraniadau ariannol yn Lleu, ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Trafod a phenderfynwyd cynnal cyfarfod i drafod y ceisiadau hyn ar 5ed Chwefror.

14. **Tir Cwtin** - bu i Justin Davies a Judith Humphreys adael y cyfarfod am y drafodaeth hon. Wedi derbyn e-bost gan ein cyfreithwyr ynglŷn â'r community agreement benefit. Penderfynwyd yn unfrydol yn absenoldeb y gadeiryddes i drafod hwn yn ein cyfarfod mis Rhagfyr.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 9fed Rhagfyr 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ______________________________ Dyddiad - ___________